## PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Jeff Evans (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Sonia Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint ap Ifan Bebb, Aled M Jones, John Ifan Jones, R Ll Jones, Llio Angharad Owen, Keith Roberts, Ieuan Williams ac Arfon Wyn<br><br>**Aelodau Cyfetholedig:**<br><br>Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig yng Nghymru)<br>Ms Christina Williams (Rhiant Lywodraethwr - Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY)<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd,<br>Y Cynghorydd Neville Evans - Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol,<br>Y Cynghorydd Carwyn Jones - Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer,<br>Y Cynghorydd Alun Roberts - Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol,<br>Y Cynghorydd Dafydd Roberts - Aelod Portffolio Addysg a’r Gymraeg),<br>Y Cynghorydd Robin Williams - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Gwasanaethau Tai. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Pennaeth Democratiaeth (DS)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD),<br>Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth) (SO) (ar gyfer eitem 4),<br>Arweinydd Strategol (Uwchradd) (ED) (ar gyfer eitemau 6 ac 8)<br>Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen (GP) (ar gyfer eitemau 6 ac 8)<br>Rheolwr Rhaglen (EM) (ar gyfer eitem 8),<br>Rheolwr Rhaglen (AH) (ar gyfer eitem 8),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Cynorthwyydd Gweddarlledu (Gwasanaethau Democrataidd) (CH). |

| | |
|---|---|
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | **Gwahoddwyd Aelodau Lleol ar gyfer eitem 8**<br><br>Cynghorwyr Glyn Haynes, Pip O'Neill a Dafydd Rhys Thomas.<br><br>Joseph Griffiths – Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (ar gyfer eitem 3);<br>Helen Kilgannon – Rheolwr Rhanbarthol (Cynghorau Gogledd Cymru - Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru)<br>Jon Zolat - Cynghorau Gogledd Cymru - Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Jackie Lewis ac Alwen P Watkin.<br>Kathryn Seeney (Rhiant Lywodraethwr - Cynradd)<br><br>Cynghorydd Gwilym O Jones (Aelod Lleol a wahoddwyd ar gyfer eitem 8) |

---

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Bu i'r Cynghorydd Jeff Evans ddatgan diddordeb personol a rhagfarnol yn eitemau 6 ac 8 am ei fod yn Llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd Caergybi, a bod aelodau o'i deulu yn gweithio yn yr ysgol.  Yn dilyn derbyn caniatâd arbennig gan Banel Caniatâd Arbennig - Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd at 9 Hydref 2025, roedd ganddo'r hawl i gymryd rhan a phleidleisio ar y materion hyn.

Bu i'r Cynghorydd Keith Roberts ddatgan diddordeb personol a rhagfarnol yn eitemau 6 ac 8 am ei fod yn Llywodraethwr i Ysgol Uwchradd Caergybi. Yn dilyn derbyn caniatâd arbennig gan Banel Caniatâd Arbennig - Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd at 9 Hydref 2025, roedd ganddo'r hawl i gymryd rhan a phleidleisio ar y materion hyn.

Bu i'r Cynghorydd Robert Ll Jones ddatgan diddordeb personol yn eitemau 6 ac 8 am fod aelod o'i deulu yn gweithio yn yr ysgol.

Bu i'r Cynghorydd Ieuan Williams ddatgan diddordeb personol yn eitemau 6 ac 8 am iddo gael ei gyfethol fel Llywodraethwr Ysgol Uwchradd Caergybi.

## 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Medi 2025 a chadarnhawyd eu bod yn gywir, yn amodol ar gynnwys enw'r Cynghorydd Llio Angharad Owen ymhlith y rheiny oedd yn bresennol.

**Camau o'r cyfarfod diwethaf**

- Fod y data diweddaraf mewn perthynas â thueddiadau poblogaidd yn cael eu cyflwyno mewn sesiwn briffio i aelodau yn y dyfodol. - **Wedi ei raglennu fel eitem ar gyfer sesiynau briffio'r aelodau ar gyfer y dyfodol.**
- Bydd yr Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol yn trafod y gwaith o drefnu gweithgarwch gyda Rheolwr Môn Actif, gan gynnwys hyfywedd sesiynau ar y penwythnos a rhai buan/hwyr - **Cam wedi'i gwblhau gan fod y Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol wedi trafod yr amserlenni'n llawn gyda Thîm Môn Actif.**
- Bod adroddiad chwarterol ar weithgareddau'r Cyngor, sy'n ymwneud â newid hinsawdd, a'i gynnydd tuag at gyflawni statws net sero yn cael ei gynnwys fel eitem sefydlog ar agenda'r pwyllgor, yn amodol ar y mater yn cael ei ystyried gan Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol yn gyntaf. **- Cam wedi'i gwblhau - Trafodwyd y mater yng nghyfarfod yr Arweinyddion Grŵp Gwleidyddol a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2025, a chytunwyd bod trefniadau clir ac addas ar waith mewn perthynas â materion newid hinsawdd a bod diweddariadau cyson yn cael eu darparu pan fo hynny'n amserol a phriodol.**

**3 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU (RHAN 9:IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL) 2024/25**

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (Rhan 9:Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol) 2024/25 i'w ystyried gan y pwyllgor.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau oedolion a Diogelwch Cymunedol mai nod Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru yw gweithio ar y cyd ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i helpu i gefnogi cymunedau gwydn a sicrhau bod gwasanaeth o safon yn cael i gynnig unigolion y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt. Dywedodd fod y Bwrdd yn cynnwys aelodau o'r 6 awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru a sefydliadau'r trydydd sector. Dywedodd bod y Bwrdd wedi datblygu'n sylweddol ers ei sefydlu i fod yn bartneriaeth cyfartal effeithiol ledled y rhanbarth. Sefydlwyd gweithdai er mwyn trafod elfennau gwahanol o waith y Bwrdd sydd wedi ychwanegu gwerth. Mae'r 6 Aelod Portffolio sydd â chyfrifoldeb am Wasanaethau Cymdeithasol ar draws awdurdodau lleol Gogledd Cymru hefyd yn cyfarfod yn fisol.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr Awdurdod yn elwa o'r gwaith a wneir yn rhanbarthol gan fod yr Awdurdod yn bartner cyfartal o fewn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Cyfeiriodd at y prosiectau lleol i Ynys Môn fel y nodir yn yr adroddiad. Fel partner yn y Bwrdd Partneriaeth, mae'r Awdurdod yn gallu sicrhau cyllid grant ychwanegol ar gyfer prosiectau er budd trigolion Ynys Môn. Mae hyn yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun y Cyngor

2023-2028. Aeth ymlaen i ddweud y gall y sefydliadau partner ddysgu gwersi o ran gwahanol brosiectau oddi wrth ei gilydd, gyda phob sir bellach wedi sefydlu prosiect tebyg i brosiect Cartrefi Clyd, a sefydlwyd gan yr Awdurdod hwn. Gwnaed buddsoddiadau gwerth £4 miliwn i'r prosiectau hyn ledled Gogledd Cymru.

Dywedodd Mr Jospeh Griffiths o Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru fod nifer o brosiectau wedi cael eu sefydlu ar Ynys Môn. Mae Canolfan Glanhwfa yn Llangefni yn enghraifft sydd â chyfleuster cymorth Dementia. Mae cyfleuster Gofal Ychwanegol hefyd wedi cael cefnogaeth ym Mhorthaethwy. Cyfeiriodd at Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol sy'n cael ei rhannu rhwng y 6 awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd ac amlygwyd enghreifftiau o'r prosiectau sydd wedi elwa o'r cyllid yn yr adroddiad.

Trafododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:-

- Cyfeiriwyd at y ffaith ei fod wedi'i nodi yn yr adroddiad bod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cwestiynu ei strwythur llywodraethu ei hun. Nodwyd bod diffyg proses graffu ranbarthol o fewn y Bwrdd. Awgrymwyd y dylai pob awdurdod lleol graffu ar un o'r 6 model o ddarpariaeth gofal a amlygwyd yn yr adroddiad neu fod angen sefydlu Pwyllgor Craffu Rhanbarthol.
- Nodwyd nad yw'r adroddiad yn glir ynghylch gwerth y gefnogaeth a roddir gan y Bwrdd i bobl sydd angen cefnogaeth ychwanegol o fewn y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cyfeiriwyd at y Cynllun Gweithredu a oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. Nodwyd bod diffyg costio sy'n gysylltiedig â'r prosiectau yn y Cynllun.
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod yr adroddiadau'n tynnu sylw at sawl llwyddiant a gyflawnwyd gan y Bwrdd, fodd bynnag, codwyd cwestiynau ynghylch y prosiectau nad ydynt wedi bod mor llwyddiannus ac a yw gwersi wedi'u dysgu.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion ei fod yn cytuno bod heriau a bod angen mynd i'r afael â meysydd penodol. Nododd fod y Bwrdd yn canolbwyntio ar y tymor hir nag o'r blaen. Cytunodd fod meysydd angen eu cryfhau a bod angen dysgu o brosiectau nad ydynt wedi dod i'r amlwg fel y disgwyliwyd.

Dywedodd Mr Joseph Griffiths, Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru, ei fod yn cytuno y gellir gwella'r Cynllun Gweithredu, a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad, gydag amcan o gostau wrth ymyl pob prosiect. Nododd fod y Bwrdd yn canolbwyntio ar y gwersi a ddysgwyd o brosiectau sydd wedi bod yn heriol.

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod y cyfleuster Dementia sydd wedi'i leoli yng Nghanolfan Glanhwfa, Llangefni yn enghraifft o'r gefnogaeth a roddir i'r trigolion. Gofynnwyd sut fydd y Bwrdd yn mynd i'r afael â'r pellter y mae'n rhaid i bobl deithio o ogledd yr Ynys ac o ardaloedd gwledig i'r cyfleuster a gynigir.

- Cyfeiriwyd at y Cynllun Peilot ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9 mewn Ysgolion Uwchradd i ddenu pobl ifanc i fod â diddordeb mewn gyrfa mewn gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd.  Codwyd cwestiynau ynghylch a fyddai'r cynllun yn parhau i gael ei gynnig o fewn yr Ysgol Uwchradd.

Dywedodd Mr Joseph Griffiths, Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru, fod y Bwrdd yn ceisio cyllid i gefnogi pobl i deithio o ardaloedd gwledig i Ganolfan Glanhwfa, Llangefni.  Nododd y byddai'n rhoi manylion y prosiect a manylion cyswllt i'r Pwyllgor wedi hynny.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion fod yr Awdurdod wedi penodi tri Swyddog sy'n ymweld ag unigolion yn eu cartrefi a'u cymunedau o ran cefnogaeth i bobl â Dementia.  Nododd fod angen annog a chefnogi pobl i integreiddio â phobl eraill.  Mae Hwb Dementia wedi'i ddatblygu yng Nghanolfan Glanhwfa lle bydd arbenigwyr yn cefnogi unigolion sydd wedi cael diagnosis o ddementia.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol mai Ynys Môn oedd yr Awdurdod cyntaf i ddarparu cwrs gofal cymdeithasol ac iechyd i ddisgyblion Blwyddyn 9.  Nododd fod trafodaethau wedi'u cynnal gyda Phenaethiaid yr Ysgolion Uwchradd, yn gyntaf, cyn cynnig cyfle i ddisgyblion, a bod yr adborth wedi hynny yn arbennig.  Roedd y bobl ifanc yn gwerthfawrogi'r cyfle i fynychu'r cyrsiau hyn a oedd hefyd yn tynnu sylw at y llwybrau gyrfaol o fewn gofal cymdeithasol a'r sector iechyd.  Dywedodd y bydd y cwrs yn cael ei gynnig eto eleni i ddisgyblion Blwyddyn 9 yn Ysgolion Uwchradd yr Ynys.  Nododd y bydd gweithwyr proffesiynol eraill o fewn y sector gofal cymdeithasol hefyd yn mynychu'r Ysgolion Uwchradd i dynnu sylw at y gwaith maen nhw'n ei wneud a'r cyfleoedd gyrfaol sydd ar gael.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried y gwaith y mae'n ofynnol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei gyflawni.**
- **Bod y Pwyllgor yn nodi'r gwaith a'r cynnydd a wnaed yn 2024/25 yn y meysydd gwaith sy'n cael eu datblygu drwy Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru.**

**4 ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETH CYNLLUNIO RHAG ARGYFWNG RHANBARTHOL CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU 2024/25**

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru ar gyfer 2024/2025 i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd fod yr Adroddiad Blynyddol yn rhoi trosolwg o weithgarwch y gwasanaeth yn ystod 2023/24. Mae gan y Cyngor ddyletswyddau cynllunio ac ymateb i argyfyngau dan y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol ac mae'n brif ymatebydd. Mae'r Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau trwy gydweithio ag Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru trwy Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru. Mae'r adroddiad yn crynhoi gweithgaredd rhanbarthol yn ystod y flwyddyn o ran rheoli digwyddiadau ac ymateb i argyfyngau yn ogystal â gweithgaredd o fewn

chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru yn unigol. Nododd fod yr Adroddiad Blynyddol hwn yn cynnwys manylion sylweddol am y gwaith a wnaed a phwrpas y Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol.

Dywedodd Rheolwr Rhanbarthol Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru fod y Gwasanaeth wedi gwneud gwaith sylweddol oherwydd y cynnydd mewn stormydd a rhybuddion tywydd sydd wedi digwydd, yn enwedig Storm Darragh a Storm Amy yn ddiweddar. Nododd fod gwaith sylweddol hefyd wedi'i wneud gan y Gwasanaeth gyda'r Siarter i'r Rheiny mewn Profedigaeth. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol wedi bod yn rhan annatod o Grŵp Tasg a Gorffen Menai sy'n canolbwyntio ar gau'r pontydd ar yr un pryd. Mynegodd fod y Gwasanaeth wedi'i sefydlu'n bennaf i leihau dyblygu ar draws Gogledd Cymru a sicrhau bod mwy o adnoddau ar gael i awdurdodau lleol.

Fe wnaeth aelodau'r pwyllgor drafod y materion a ganlyn wrth ystyried yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y pryderon ynghylch cau Pont Menai yn sydyn yn ddiweddar. Mynegwyd ei bod yn amlwg nad yw Llywodraeth Cymru yn gwrando ar bryderon y gymuned leol gan fod y bont wedi cau heb rybudd yn ddiweddar gan achosi oedi sylweddol; mynegwyd pryderon hefyd, pe bai angen cau Pont Britannia hefyd, y gallai hyn achosi amhariadau sylweddol ar yr Ynys i'r Gwasanaethau Brys sy'n cludo cleifion i Ysbyty Gwynedd a phlant a phobl ifanc mewn ysgolion a cholegau. Mynegwyd pryderon hefyd bod busnesau ym Mhorthaethwy yn cael eu heffeithio'n fawr, gyda phobl yn osgoi'r ardal. Codwyd cwestiynau ynghylch a oes diweddariad ynghylch yr amserlen ar gyfer gorffen y gwaith ar Bont Menai.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd nad yw'r Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol yn gyfrifol am gau Pont Menai nac am ddiffyg cynnal a chadw'r bont. Atgoffodd y Pwyllgor mai cyfrifoldeb y Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol yw cynllunio a rheoli'r sefyllfa pan fydd y ddwy bont ar gau oherwydd stormydd a rhybuddion tywydd. Cyfeiriodd at storm ddiweddar pan gododd y sefyllfa ynghylch yr angen posibl i gau Pont Britannia a'r cyfyngiadau ar Bont Menai. Cyfrifoldeb y Gwasanaeth Brys Rhanbarthol yw rhoi Cynllun Gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r sefyllfa mewn cydweithrediad â'r Fforwm Gwytnwch Lleol a'r Gwasanaethau Brys a sefydliadau eraill i sicrhau bod y Cynllun yn mynd i'r afael ag anghenion a phryderon trigolion yr Ynys.

Dywedodd y Prif Weithredwr mai rôl y Gwasanaethau Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol yw cydweithio â phartneriaid, ymateb i faterion ac effeithiau a sicrhau gwybodaeth gymunedol effeithiol gyda thrigolion i sicrhau nad yw bywydau pobl mewn perygl. Nododd fod gwaith sylweddol wedi'i wneud gyda'r Awdurdod a'r Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol i lunio Cynllun Gweithredu Drafft a fydd yn cael ei ystyried gan y Fforwm Gwytnwch Lleol fis nesaf. Nododd mai ased a chyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw Pont Menai. Mynegodd fod y mater yn ymwneud â chau ac agor Pont Menai yn rhannol yn fater i'w drafod yng Nghyfarfod Arbennig Cyngor Ynys Môn a drefnwyd ar gyfer 28 Hydref, 2025.

- Cyfeiriwyd at gau Porthladd Caergybi o 7 Rhagfyr, 2024 i 15 Ionawr, 2025 oherwydd y difrod a achoswyd gan Storm Darragh.  Codwyd cwestiynau a oedd trafodaethau wedi digwydd gyda Llywodraeth Iwerddon ynghylch effaith y ffaith nad oedd y fferïau’n gallu croesi Môr Iwerddon o Gaergybi.

Dywedodd yr Arweinydd fod trafodaethau wedi’u cynnal gyda Gweinidogion a Swyddogion Iwerddon ynghyd â Stena ac Irish Ferries a sawl sefydliad amlasiantaeth arall oherwydd cau Porthladd Caergybi.  Mynegodd nad oedd yn ystyried bod y mater yn berthnasol i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod angen i'r Pwyllgor hwn ymgymryd â gwaith a hyfforddiant ar y Ddeddf Cydraddoldeb gan ei bod yn ymddangos bod proses gydraddoldeb wahanol yn ystod sefyllfaoedd brys.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod gwahaniaeth wrth ddelio â phobl yn ystod argyfwng.  Mynegodd fod nifer o bobl agored i niwed yn byw ar yr Ynys ac yn dibynnu ar wasanaethau a gwirfoddolwyr y Cyngor mewn argyfwng.   Dywedodd mai nod yr Awdurdod a'r Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol yw sicrhau, pan fydd argyfwng yn digwydd, fod pobl yn ddiogel ac yn cael cymorth pan fo angen.

- Codwyd cwestiynau ynghylch gwydnwch seiberddiogelwch y Cyngor.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod ymosodiadau seiberddiogelwch yn un o'r prif risgiau y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu'n ddyddiol a bod dau Swyddog yn ymdrin â seiberddiogelwch yn y Cyngor i sicrhau bod y feddalwedd gywir ar waith a bod yr hyfforddiant gofynnol i staff ar waith.  Mae'r Awdurdod yn gweithio tuag at gydymffurfio â'r Fframwaith Asesu Seiber a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Ar ôl craffu ar yr adroddiad diweddaru ac ystyried ymateb y Swyddog i'r materion a godwyd, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol nodi cynnydd gwaith Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru yn 2024/25.**

## 5 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd, i’w ystyried, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Ebrill 2026.

Gofynnodd y Pwyllgor i gynnwys parhad busnes sy'n seiliedig ar TG yn y Blaen Rhaglen Waith.

**PENDERFYNWYD:-**

- **I cytuno’r fersiwn gyfredol o’r Flaen Raglen Waith ar gyfer 2025/26, gan gynnwys y newidiadau a nodwyd, yn amodol ar gynnwys eitem ynglyn a pharhad busnes sy’n seiliedig ar TG.**
- **Nodi’r cynnydd a waned hyd yma o ran gweithredu’r Blaen Raglen Waith.**

**6 CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD AR Y CYNNIG I ADLEOLI DYSGWYR YSGOL UWCHRADD CAERGYBI I ADEILAD NEWYDD AR GYFER DYSGWYR 11-18 OED**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc i’r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod yr adroddiad yn canolbwyntio ar ganlyniad y broses ymgynghori ar y cynnig i adleoli Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd. Mae gan y Cyngor ddyletswydd dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion i ymgynghori â rhanddeiliaid wrth ystyried cynigion ad-drefnu ysgolion. Cynhaliwyd proses ymgynghori rhwng 5 Mehefin, 2025 a 17 Gorffennaf, 2025 i adleoli Ysgol Uwchradd Caergybi i safle newydd. Cynhaliwyd ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc ynghylch y cynnig i adleoli'r ysgol i safle newydd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod 79% o’r ymatebwyr yn cytuno â’r cynnig i adleoli Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer plant 11-18 oed. Nododd fod 20% o'r sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystyried bod y safle arfaethedig i adleoli'r ysgol yn rhy bell o ganol y dref, y dylid diweddaru neu ailadeiladu'r adeilad presennol ar y safle presennol.

Wrth ystyried yr adroddiad, gwnaed y sylwadau canlynol:-

- Codwyd cwestiynau ynghylch a fyddai darpariaeth ar gyfer dysgwyr ADY fel rhan o'r cynnig gan fod canllawiau ADY ar gyfer ysgolion yng Nghymru yn cefnogi dysgwyr o'u genedigaeth hyd at 25 oed.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc mai'r cynnig yw adleoli Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 11 i 18 oed.

  Dywedodd y Prif Weithredwr fod cydweithio’n digwydd rhwng yr Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg pan fydd person ifanc ag anghenion ADY yn cyrraedd 18 oed i gefnogi ei anghenion addysgol.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cymeradwyo’r cynnig, yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad statudol i adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed;**
- **Awdurdodi swyddogion i gyhoeddi hysbysiad statudol mewn perthynas â'r cynnig.**

7 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"Penderfynu o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

8 **ACHOS STRATEGOL AMLINELLOL - ADLEOLI DYSGWYR YSGOL UWCHRADD CAERGYBI I ADEILAD YSGOL UWCHRADD NEWYDD AR GYFER DYSGWYR 11-18 OED**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Iaith Gymraeg fod yr Achos Amlinellol Strategol (SOC) yn cynnwys achos i adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi i gymryd lle'r adeilad presennol erbyn mis Medi 2030. Byddai adeilad newydd yr ysgol yn darparu lle i ddisgyblion sydd ar hyn o bryd yn Ysgol Uwchradd Caergybi ac unrhyw ddisgyblion ychwanegol o'r dalgylch. Amlinellwyd manylion y cynigion ariannu i adeiladu ysgol newydd i'r Pwyllgor.

Roedd yr Aelodau Lleol, a wahoddwyd i'r Pwyllgor, yn unfrydol yn cefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd fel y'u hamlinellwyd yn yr adroddiad.

Ar ôl trafod yr Achos Amlinellol Strategol a'r cynnig ariannu i adeiladu ysgol newydd, **PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith:-**

- **Gymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol ar gyfer yr adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi;**
- **Cymeradwyo cyflwyno'r Achos Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru erbyn 8 Ionawr 2026 ar gyfer cyfarfod o'r Grwp Craffu ar Achosion Busnes a fydd yn cyfarfod bythefnos yn ddiweddarach;**
- **Cymeradwyo clustnodi derbyniadau cyfalaf yn dilyn gwerthu safle presennol Ysgol Uwchradd Caergybi i ad-dalu rhan o fuddsoddiad y Cyngor tuag at adeiladu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi;**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog A151 a Chyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i ddiwygio'r Achos Amlinellol Strategol os oes angen - oni bai bod y newidiadau'n achosi newidiadau sylweddol (o ran polisi, egwyddorion, cyfraniad ariannol, risgiau a niwed i drydydd bartïon).**

**I glustnodi arian datblygwyr o ddatblygiadau tai o fewn dalgylch Ysgol Uwchradd Caergybi i gyfrannu at gost y prosiect.**

**Y CYNGHORYDD JEFF EVANS**
**CADEIRYDD**